# HEDDWCH

Rhifyn 83 > Mis Mai 2023 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear




Kristen Dvergsdal/Atomvapen

## *MAE ARFAU NIWCLEAR YN ANGHYFREITHLON!*

**Dwedwch hynny wrth arweinwyr pwerau niwclear y byd: Putin, Biden, Macron, Sunak, Kim, Modi, Sharif, Xi a Netanyahu. Mae’r gwŷr hyn oll yn gwrthod arwyddo’r TPNW (cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear). Rydyn ninnau’n gwrthod y blacmêl niwclear byd-eang hwn ac yn mynnu ar yr heddwch cyfiawn a pharhaus a gynigir gan y TPNW.**

***Ymddiheuriadau: oherwydd salwch, ni fu modd i ni argraffu rhifyn mis Rhagfyr o Heddwch. Gellir ei weld, fodd bynnag, ar ffurf llythyr newyddion ar ein gwefan:***
*www.cndcymru.org/cy/cylchgrawn-heddwch/*

Doedd braw-ataliaeth niwclear erioed yn cynnig diogelwch gwirioneddol, ac o dan arweiniad byrbwyll, yn aml, y pwerau niwclear presennol, cynyddu beunydd y mae'r peryglon. Mae Rwsia'n penderfynu lleoli arfau niwclear yn Belarus. Mae rhyfel Wcráin yn gwaethygu, heb ddiweddglo diplomyddol ar y gorwel. Mae UDA a'i chynghreiriaid yn cynyddu tensiynau yn yr Indo-Fôr Tawel trwy gytundeb newydd AUKUS, sy'n tanseilio egwyddorion y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear.

Ar drothwy 20 mlwyddiant goresgyniad Irac, mae'r DU yn anfon ffrwydron gwrth-danc hydreiddiol dros ben, sy'n cynnwys wraniwm lleiedig [DU], i Wcráin, er gwaetha effeithiau hyn yn Fallujah, lle gallai anadlu llwch wraniwm ymbelydrol a gwenwynig fod wedi achosi cynnydd mewn canserau a namau geni o bosib.
*www.cadu.org.uk/intro.htm*

Mae'r byd dan fygythiad argyfwng hinsawdd, trychinebau naturiol, ac anhrefn economaidd. Nid rhyfela niwclear mo'r ateb byth.

## *Yn y rhifyn hwn*


| | |
|---|---|
| Y neges o Oslo: Fforwm 2023 ICAN | 4 |
| AUKUS a'r Rhyfel Oer newydd | 5 |
| Militareiddio yn Rwsia | 6 |
| Cofio Chernobyl | 8 |
| Y Goedwig Goch | 8 |
| Newyddion Cymru: Deiseb Heddwch y Merched, Pwyllgor Materion Cymreig, Heddwch ar Waith. Crynodeb o newyddion a gweithredu. | 9 |
| Adolygiadau | 14 |
| Er Cof | 15 |
| Cysylltiadau | 16 |



*Elfed Jones*

***CND Cymru ar daith, 2022***

# Y DDOLEN GYSWLLT GOLL




Marian Delyth

*Protestwyr CND Cymru yn Aberystwyth, Mawrth 2023. Un rheswm dros ein gwrthwynebiad i Adweithyddion Modiwlaidd Bychain [SMRs] sifil yw eu cysylltiadau clòs ag ymchwil a datblygiad milwrol.*

Beth sydd y tu ôl i'r obsesiwn parhaus â phŵer niwclear sifil? Mae'n drychinebus o ddrud; mae'n agored i ymosodiad milwrol a thrychinebau naturiol; mae'n gadael etifeddiaeth ymbelydrol sy'n para am filoedd o flynyddoedd. Mae ail-gategoreiddio pŵer niwclear yn 'wyrdd' yn amlwg yn hurt.

Roedd defnydd niwclear sifil a milwrol, o'r cychwyn cyntaf, yn ddwy ochr i'r un geiniog. 'Newspeak' Orwellaidd oedd y slogan 'atomau dros heddwch' a fathwyd gan yr Arlywydd Eisenhower yn 1953. Dyluniwyd gorsaf bŵer niwclear gyntaf y byd, Calder Hall (1956), i gynhyrchu plwtoniwm gradd arfau, fel yr adweithyddion Magnox a'i dilynodd.

Efallai bod gwledydd di-niwclear fel Iran yn dymuno creu'r gallu cynhyrchu hwn o'r cychwyn ond beth am wledydd sydd eisoes â digon o ddeunydd gradd-arfau i gynnal eu harfogaeth niwclear? Beth sy'n cymell y lobi niwclear sifil? Wedi'r cwbl, ni ellir cwblhau'r SMRs arfaethedig ac adweithyddion mwy o faint o fewn y terfynau amser hanfodol ar gyfer cyrraedd sero net. Mae costau cynyddol a gor-redeg yn rhan gynhenid o'r diwydiant. Mae ynni adnewyddadwy rhad ymhell ar y blaen.

Ymddengys bod yr awydd am ddadeni niwclear sifil wedi ei ysgogi gan yr angen am gwrdd â chost ymchwil a chynhyrchu arfau niwclear newydd. Bydd cytundeb AUKUS (gwel t5) yn gweld Rolls Royce yn y DU yn adeiladu llongau tanfor pŵer niwclear ar gyfer Awstralia, gan gyflogi gweithlu mawr yn Derby. Croesawyd hyn gan Tom Purnell, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes y Ganolfan Ymchwil i Weithgynhyrchu Niwclear Uwch: 'Mae yn y farchnad yriant morol draws-groesiad mawr iawn o ran galluoedd gweithgynhyrchu a sgiliau sydd eu hangen ar y diwydiant niwclear sifil, gyda llawer o'r un gweithgynhyrchwyr niwclear yn gweithio yn y ddau sector. Er mwyn bodloni gofynion AUKUS a rhaglen longau tanfor y DU ei hun, tra hefyd yn adeiladu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear i gyrraedd ein targedau cenedlaethol ar gyfer datgarboneiddio a diogelwch ynni (sic), mae angen buddsoddi ac arloesi er mwyn datblygu galluoedd a sgiliau cadwyn gyflenwi'r DU.'

**Mewn llythyr at *y Guardian* ar 16 Mawrth, sgrifennodd yr Athro Andy Stirling o Brifysgol Sussex: 'Trwy ymrwymo i "chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i alinio gwaith ar fentrau niwclear sifil ac amddiffyn", cydnabyddir yn agored o'r diwedd y ddibyniaeth filwrol hir-guddiedig ar y seilwaith sifil. Byddai adeiladu a chynnal llongau tanfor niwclear yn rhy gostus heb "sylfaen ddiwydiannol" wedi'i ariannu'n bennaf gan filiau trydan uwch i ddefnyddwyr.'**

PHILIP STEELE

# NEGES O OSLO

**PETER ADAMSON**, *o Abertyleri, sy'n adrodd ar fforwm 2023 ICAN*

Yn 2017 anrhydeddodd pwyllgor Gwobr Heddwch Nobel ICAN – yr Ymgyrch Ryngwladol i Ddiddymu Arfau Niwclear – am y gwaith a arweiniodd at Gytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW). Cafodd arfau niwclear eu gwahardd wrth i'r cytundeb ddod i rym ym mis Ionawr 2021, ond rhaid i wledydd arwyddo'r cytundeb a'i gadarnhau. Ni wnaeth yr un wladwriaeth ag arfau niwclear hynny hyd yn hyn.

Roedd y fforwm yn fywiog ac yn broffesiynol. Pobl ifanc oedd yn y mwyafrif. Roedd yna deimlad cryf o frys i gael gwledydd ag arfau niwclear a rhai eraill cyfrannog i weithredu ar y Cytundeb, a bwrw cymaint mwy yw'r bygythiad niwclear sy'n deillio o wrthdaro Rwsia-Wcráin a'r bygythiad dirfodol arall hwnnw i fywyd ar y ddaear, newid hinsawdd.

Agorodd **Maja F Thompson** a **Daniel Högsta** o ICAN Norwy y trafodaethau. Dangoswyd i'r cynadleddwyr gyflwyniad teimladwy gan **Setsuko Thurlow,** un a oroesodd Hiroshima. Siaradodd **Nina Tannenwald** am ei llyfr, The Nuclear Taboo. Dadl y llyfr yw, ers gollwng bomiau niwclear ar Hiroshima a Nagasaki, bod gwledydd ag arfau niwclear wedi derbyn yn ddealledig bod defnyddio arfau niwclear yn annychmygadwy. Fodd bynnag, mae'r 21ain ganrif wedi rhoi i ni arweinwyr gwleidyddol fel Trump a Putin, sy'n siarad yn agored am eu defnyddio, a thrwy hynny erydu'r tabŵ niwclear.

Roedd sesiynau'r prynhawn yn gyfle i gynrychiolwyr fynychu grwpiau trafod llai. Mynychais un ar effeithiau ymbelydredd. Disgrifiodd siaradwr o Kazakhstan, lle cynhaliwyd 466 o brofion atomig yn ystod y cyfnod Sofietaidd, beth oedd canlyniad hyn i lawer o bobl gyffredin yn ei wlad. Gweler *www.nucleartestimpacts.org*

'Adeiladu Ymgyrch ar Lawr Gwlad' oedd teitl sesiwn arall, gyda siaradwyr yn cynnwys yr ASA **Bill Kidd**, **Ellie Kinney** o CND y DU, **Lucy Tiller** o ieuenctid TPNW, **Lisa Korosova** o Wcráin ac **Uve** o Nigeria yn cynrychioli ieuenctid Affrica. Trefnwch ymgyrchoedd o gwmpas amgylchiadau lleol, oedd y cyngor, er enghraifft, agosrwydd safle niwclear at gymuned, neu ryfel go iawn ar garreg eich drws. Ond ymgysylltwch â phobl sy'n rhan o wahanol ymgyrchoedd hefyd a dod o hyd i dir




Kristen Dvergsdal/Atomvappen

***Cynhaliwyd fforwm fis Mawrth ICAN yn Oslo, cartref Gwobr Heddwch Nobel***

cyffredin. Soniodd **Bill Kidd** am yr ymgyrch ar-lein, 'Peidiwch â Bancio ar y Bom', y gall unrhyw un gymryd rhan ynddi. Soniodd **Uve** am sut y mae Affrica yn barth di-niwclear, ar wahân i'r mwyngloddio wraniwm sy'n digwydd yno.

Ar y nos Iau gwahoddwyd cynrychiolwyr i dderbyniad yn Neuadd y Ddinas Oslo. Fe'n croesawyd i'r digwyddiad gan **Marianne Borgen**, maer Oslo ac ymgyrchydd ers tro byd dros ddiarfogi niwclear.

**Bydd MSP2, cyfarfod y gwladwriaethau, sef cynulliad blynyddol y rhai sydd wedi llofnodi'r TPNW, yn digwydd ym mhencadlys y CU yn Efrog Newydd ar 22 Tachwedd 2023. Bydd y cynulliad yn cael ei gynnal gan Mecsico, aelod cyntaf y CU i ddatgan ei fod yn barth di-niwclear.**

Uchafbwynt y ddau ddiwrnod oedd ymgynnull y tu allan i adeilad senedd Norwy gerllaw. Datgelodd sgyrsiau anffurfiol a gefais gyda mynychwyr o Norwy eu bod yn credu y byddai Norwy yn arwyddo'r PTGC yn fuan iawn. Mae Norwy eisoes yn barth di-niwclear, a chan ystyried ei hanes o weinyddu'r Wobr Heddwch, wele lygedyn o bwyll mewn hinsawdd ddigalon fel arall o ryfelgarwch cynyddol rhwng cenhedloedd.

**PETER ADAMSON**

# AUKUS A'R RHYFEL OER NEWYDD




*Australian Anti-AUKUS Coalition*

Ai dyma yn wir yr adeg i fod yn adfywio Rhyfel Oer byd-eang? Ie, mae'n amlwg, i **Biden**, **Sunak** ac **Albanese** a ailsefydlodd yr hen agwedd Rhyfel Oer traddodiadol trwy ymuno â chytundeb Indo-Fôr Tawel AUKUS fis Mawrth 2023.

Cynghrair filwrol gwbl eingl-sacsonaidd yw AUKUS (Australia-UK-US), a'r nod o gadw China yn ei lle ac UDA ar y brig. Mae'n ehangu canolfannau milwrol yr UD ar draws y rhanbarth ac yn trosglwyddo technoleg llongau tanfor niwclear i wladwriaeth ddi-niwclear (Awstralia), a thrwy hynny'n tanseilio'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear. Arfau confensiynol fydd gan y llongau tanfor – am y tro.

A fydd yn gweithio? Siawns na fydd, gan fod AUKUS yn cynyddu'r bygythiad canfyddedig yn hytrach na'i liniaru. Pa mor aml y mae balchder haerllug yr UD wedi creu'r union broblem roedd am ei datrys? I **gyn-Brif Weinidog Awstralia, Paul Keating,** dyma'r 'ddêl waetha mewn hanes' ac mae lleisiau amheus o fewn cymuned gudd-wybodaeth yr UD, hyd yn oed.

Yn Awstralia, mae cost hirdymor anferth y cynllun newydd, sydd eisoes yn nesau at $368 biliwn, y tu hwnt ym marn llawer. Mae'r Cyngor Undebau Llafur yn gwrthwynebu AUKUS: TUC Cymru, noder! Mae gwerthu AUKUS i'r cyhoedd fel cyfrwng cryfhau sofraniaeth Awstralia yn chwerthinllyd: yr ochr yma, gwyddom ninnau'n iawn pa mor 'annibynnol' yw'n harf braw-ataliol mewn gwirionedd.

**PHILIP STEELE**

# MILITAREIDDIO YN RWSIA

**DR JENNIFER G. MATHERS** *Uwch-ddarlithydd yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth*



Wikimedia Commons/Kremlin.ru

***Aelodau o Fyddin Ieuenctid Rwsia yn ysgwyd llaw â Putin***

Un o'r llu o bethau rydyn ni wedi'u dysgu o ganlyniad i ymosodiad lluoedd Rwsia ar Wcráin ar 24 Chwefror 2022 yw'r graddau o filitareiddio a fu ar gymdeithas Rwsia, ac i ba eithafion yr â cyfundrefn **Vladimir Putin** i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol o Rwsiaid yn arddel gwerthoedd milwrol.

Mae'r ysgolhaig ffeministaidd Americanaidd **Cynthia Enloe** yn diffinio militareiddio fel proses gam-wrth-gam sy'n ein harwain i gredu y gall lluoedd arfog ac atebion milwrol ddatrys ein problemau. Gallwn weld y chwilio hyn am atebion milwrol i broblemau bywyd sifil bob-dydd yn digwydd pan fydd cymuned yn croesawu'r swyddi a gaiff eu creu ar achlysur agor neu ehangu cyfleuster sy'n cynhyrchu technoleg, offer neu arfau at ddefnydd y lluoedd arfog, neu pan fydd teulu yn ddiolchgar bod sgwrs gyda recriwtiwr milwrol wedi ysbrydoli eu mab arddegol i dalu mwy o sylw i'w astudiaethau a meddwl am ei ddyfodol.

Fel y dengys y ddwy enghraifft hyn, nid Rwsia yw'r unig wlad o bell ffordd sydd â chymdeithas wedi ei militareiddiol neu ag arweinwyr gwleidyddol sy'n hyrwyddo militariaeth fel modd o ddal gafael ar bŵer. Ond mae'n werth rhoi sylw arbennig i'r prosesau militareiddio sydd ar waith yn Rwsia oherwydd y rhain sy'n debygol o roi ffurf i'r math o Rwsia a fydd, wedi'r rhyfel ac, efallai, wedi Putin, yn ei hamlygu ei hun pan ddaw'r rhyfel yn Wcráin i ben.

Y prosesau mwyaf sinistr o filitareiddio sydd ar waith yn Rwsia yw'r rhai sy'n targedu plant. Mae gwladwriaeth Rwsia wedi trefnu cyfres o ymgyrchoedd cydgysylltiedig â'r bwriad o roi cysylltiad personol i bobl ifanc â'r rhyfel yn Wcráin a gyda'r milwyr Rwsiaidd sy'n ymladd ynddo. Yn yr ysgol, bydd disgyblion yn dysgu am filwyr o'u tref, dinas neu ranbarth sy'n ymladd yn Wcráin, yn sgrifennu llythyron atyn nhw yn mynegi eu cefnogaeth a'u hedmygedd, ac yn anfon pecynnau gofal. Ar un lefel, mae hyn yn ymddangos yn ddigon diniwed a hyd yn oed yn bositif: dylem oll fod am i blant ddysgu gofal am bobl eraill. Ond

un o effeithiau'r math hwn o allgaredd yw gwneud y rhyfel yn Wcráin yn rhan o fywydau bob-dydd plant ledled Rwsia. Mae gweithredoedd cyson, yn enwedig os ydyn nhw'n gysylltiedig ag arfer sydd mor gyfarwydd i blant â mynd i'r ysgol, yn cael eu normaleiddio'n gyflym. Mae'n llawer mwy anodd cwestiynu arfer sydd wedi'i blannu'n ddwfn yn ein trefn feunyddiol.



Wikimedia Commons/Mil.ru

***Gorymdaith Dydd y Fuddugoliaeth yn Mosgo, 2019***

Mae ymdrechion i ennyn edmygedd at filwyr a llwyddiannau milwrol ymhlith pobl ifanc yn mynd ymhell y tu hwnt i'r rhyfel presennol. Mae menter newydd yn darparu desgiau arbennig i ysgolion ar gyfer disgyblion, wedi'u haddurno â delweddau a hanesion bywyd arwyr milwrol Rwsia o'r gorffennol – yr Ail Ryfel Byd neu'r rhyfel Sofietaidd yn Afghanistan, er enghraifft. Dim ond hyn a hyn o ddesgiau a gaiff pob ysgol, felly neilltuir y cyfle i eistedd wrth un o'r desgiau arbennig hyn fel gwobr i'r disgyblion â'r marciau gorau – gan gysylltu bod yng ngŵydd arwriaeth filwrol â llwyddiant academaidd.

Nid yw prosesau militareiddio a anelir at blant yn gyfyngedig i weithgareddau a gynhelir mewn ysgolion. Mae diwylliant poblogaidd yn ffordd bwerus o wneud i fywyd milwr ymddangos yn gyffrous ac yn llawn antur. Yn 2022 rhyddhawyd ffilm animeiddiedig Rwsiaidd newydd am arweinydd milwrol y cyfnod Tsaraidd, y Cadfridog **General Alexander Suvorov**. Wedi ei hanelu at gynulleidfa o blant ysgol gynradd, bachgen cyffredin yn ei arddegau yw prif gymeriad y ffilm, sy'n achub bywyd yr arwr enwog yn ystod rhyfeloedd Napoleon. Dim ond un yw Suvorov: The Great Journey o lawer o ffilmiau a rhaglenni teledu Rwsiaidd wedi'u hanelu at bobl ifanc sydd wedi eu hysbrydoli gan hanes milwrol, gan gyflawni pwrpas deublyg o addysgu a chynnig adloniant gwladgarol.

Cafodd gweithgareddau hamdden eraill i blant eu militareiddio hefyd. Un o'r clybiau mwyaf poblogaidd a chyflymaf ei dwf i bobl ifanc Rwsia yw'r "Fyddin Ieuenctid", dan nawdd y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae gan aelodau eu lifrau coch a llwydfelyn nodedig eu hunain a byddant yn dysgu sgiliau milwrol fel saethu. Byddant hefyd yn cynnal projectau cymunedol, megis creu celf stryd o gwmpas delweddau a sloganau gwladgarol, neu wneud ffrindiau â phlant o ranbarth Donbas a ffodd (neu a gafodd eu hadleoli'n orfodol) i Rwsia o ganlyniad i'r rhyfel.

Ond er ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol o ymdrechion cyfundrefn Putin i filitareiddio'r genhedlaeth nesaf o ddinasyddion Rwsiaidd, ni ddylem syrthio i'r fagl o gredu bod Rwsiaid yn gynhenid ryfelgar neu fod rhyfeloedd â Rwsia'n rhan ohonynt yn anochel yn y dyfodol. Yn wir, mae graddfa a chwmpas y prosesau militareiddio hyn ar draul y wlad yn dangos y gŵyr y wladwriaeth na all fforddio llaesu dwylo yn ei hymdrechion i gyrraedd ei nod. Mae militareiddio yn bwerus ac yn llechwraidd, ond gellir ei wrthwynebu a'i wrthdroi.

**DR JENNIFER G. MATHERS**

# COFIO CHERNOBYL

Roedd yr ymbelydredd a ollyngwyd gan drychineb niwclear Ebrill 1986 yn Chernobyl, Wcráin, yn gymaint ag eiddo 200 o fomiau Hiroshima a Nagasaki gyda'i gilydd. Datblygodd 237 o weithwyr brys salwch ymbelydredd dwys a bu farw llawer.

Ymwelais â pharth gwahardd Chernobyl ar ddiwrnod heulog braf yn 2006. Dim ond 20 munud a ganiataodd y cyfrifydd Geiger inni. Yn y goedwig werdd, îr, roedd y tawelwch yn iasol. Gorweddai'r hofrenyddion a'r injans tân a ddefnyddiwyd yn nyddiau cynnar yr argyfwng mewn cae yn rhydu. Bydd y parth gwahardd yn para'n anniogel am filoedd o flynyddoedd. Yng Nghymru, fil o filltiroedd i ffwrdd, cafodd cannoedd o ffermydd eu llygru a'u rhoi dan gyfyngiadau am dros 20 mlynedd—pr'un ai Chernobyl oedd unig ffynhonnell y llygredd ai peidio.

Eto fyth, peryglwyd safleoedd niwclear fel Chernobyl a Zaporizhzhia gan ryfel Wcráin: mae'r IAEA yn ceisio protocolau diogelwch ar frys. Dylai cofio Chernobyl ein gwneud yn fwy penderfynol byth i wrthwynebu pŵer niwclear a'i beryglon enfawr, boed hynny drwy ddamwain neu ymosodiad.

**JILL EVANS**
**CADEIRYDD CND CYMRU**



# Y GOEDWIG GOCH

**WENDY JONES**

Na chysga yn y Goedwig Goch
na gafael yn ei dail na'i changhennau gwasgaredig;
na chwilia am iachâd y wermod,
ni wneith dy wella.

Gwranda am udo'r blaidd,
sŵn traed yr elciaid, y ceirw
a meirch gwyllt Przewalski,
cofleidia fywyd cyn y wawr.

Os gweli di filwr, wel,
tydi o ddim ond dyn ifanc fel ti,
rho ymaith dy wn, rhanna dy fara
a siaradwch am heddwch a'r sêr.

• Ardal yw'r Goedwig Goch o gwmpas Chernobyl. Ystyr y gair 'Chernobyl' yw wermod, llysieuyn chwerw sy'n dda at rhai afiechydon os defnyddir gyda gofal. Mae enw'r Goedwig Goch yn darddiad o liw'r coed pin ar ôl iddynt farw wedi trychineb Chernobyl yn 1986. Mae'r safle yn un o rannau mwyaf llygredig yn y byd hyd heddiw. Cerdd yw hon am y rhyfel o'i gwmpas ac ymgais i gyfleu'r perygl, yr erchyllter a'r dyhead am heddwch.

• Mae gan **Wendy Jones** radd anrhydedd mewn Astudiaethau Ewropeaidd a Rwsieg a chefndir mewn Cynllunio Gwlad a Thref. Ysgrifennodd Paned o de yn Georgia (Gwasg y Bwthyn 2020).



*Unsplash/Oleksandra Bardash*

# DEISEB MERCHED CYMRU DROS HEDDWCH

Wrth i ni ddathlu ei chanmlwyddiant, cafodd y gist dderw yn cynnwys y ddeiseb heddwch o bron 400,000 o lofnodion ei dychwelyd i Gymru o Washington DC.

Roedd y ddeiseb, neu'r Gofeb, oddi wrth ferched Cymru i ferched yr Unol Daleithiau ym 1924. Wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf ofnadwy, gwelwyd Cynghrair y Cenhedloedd fel ffordd o sicrhau byd di-ryfel. Roedd gan y Gynghrair fwy na 400 o ganghennau yng Nghymru. Penderfynodd cynhadledd o aelodau benywaidd yn Aberystwyth ym mis Mai 1923 apelio'n uniongyrchol ar fenywod yn UDA i ddarbwyllo eu llywodraeth i ymuno â'r Gynghrair. Mewn dim ond saith mis, casglwyd 390,296 o enwau o ddrws i ddrws. Camp anhygoel!



***Washington DC 1924: Annie Hughes-Griffiths (canol) gyda Gladys Thomas, Mary Ellis ac Eluned Prys.***

Fis Chwefror 2024 hwyliodd dirprwyaeth, dan arweiniad **Annie Hughes-Griffiths**, am Efrog Newydd â'r ddeiseb saith-milltir o hyd yn y gist a luniwyd ar ei chyfer. Cawsant eu cyfarch gan gannoedd o fenywod a chychwyn ar daith o amgylch UDA i ledaenu'r neges. Cyfarfuont â'r **Arlywydd Coolidge** a addawodd y cedwid y ddeiseb yn y Smithsonian, Amgueddfa Genedlaethol Hanes America, "am byth".

Ac yno yr arhosodd. Hyd yn awr. Ailddarganfuwyd y stori yn ddiweddar a sefydlwyd ***Heddwch Nain/ Mam-gu***, nid yn unig i nodi'r canmlwyddiant ond hefyd i barhau â'r ymgyrch dros fyd heb



***Croesawu'r Gist Goffa adre***

ryfel. Daethant â phartneriaeth ynghyd yn cynnwys y Llyfrgell Genedlaethol, yr Amgueddfa Genedlaethol, Archif Menywod Cymru, y Ganolfan Gymreig dros Faterion Rhyngwladol ac eraill, o dan arweiniad ***Academi Heddwch Cymru*** gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i gydlynu'r gwaith. Yn y Llyfrgell Genedlaethol caiff enwau'r ddeiseb eu digideiddio fel y gall pawb wirio a lofnododd aelodau o'u teulu. Mae angen miloedd o wirfoddolwyr i drawsysgrifio enwau a'r lleiaf y gallwn ei wneud yw arddangos yr un ymrwymiad â'r menywod 1923/24.

Yr hyn a ddangosodd ein neiniau oedd y gall criw bach yn gweithio mewn gwlad fechan fod yn gatalydd ar gyfer pethau gwych. Mae'r stori'n ysbrydoli pawb sy'n ei chlywed a bydd yn parhau i ysbrydoli cenedlaethau i ddod.

Diolchwn i'r Smithsonian am roi'r gist a'r ddeiseb yn ôl i Gymru. Ond fyddan nhw ddim yn anghofio'r stori hon. Yn Washington byddant yn cadw'r copi arall o glawr lledr a thestun y Gofeb am byth. Felly bydd ein cyd-hanes o heddwch a chyfeillgarwch yn parhau.

**JILL EVANS**
**CADEIRYDD CND CYMRU**

# ‘MATERION CYMREIG’: ER BUDD I BWY?

**Cynhaliodd Pwyllgor Dethol Materion Cymreig San Steffan bedair sesiwn ffurfiol ar ynni niwclear rhwng Tachwedd 2022 a Chwefror 2023. Rhoddodd Linda Rogers dystiolaeth yn un ac arsylwi ar y lleill.**

Roedd aelodau’r pwyllgor mewn hwyliau da. Roedd rhai newydd ddychwelyd o ymweliad â Vogtle, gorsaf bŵer niwclear sy’n cael ei hadeiladu gan Westinghouse yn Georgia, UDA (ac, yn nodweddiadol, sy’n hwyr a thros ei chyllideb). A oeddem ar fin ymuno â’r dadeni hwn?

Roedd y cwmnïau a dystiodd yn cynnwys Westinghouse, Bechtel, Rolls-Royce, Great British Nuclear (GBN) a Cwmni Egino. Roedd eu hatebion i gwestiynau gan gadeirydd y pwyllgor **Stephen Crabb** yn ddi-fflach, yn aml yn ffwndrus. Galwent am fomentwm, rhaglen fanwl, eglurder ynglŷn â safleoedd – a chyllid. Faint? Wel, rhaid i gyllid gael ei arwain gan bolisi, meddai GBN – a hyd yma doedd ‘na ddim polisïau. Fedrai Cwmni Egino gynnig fawr ddim eglurder ynghylch ei rôl ei hun yn y dyfodol.

Dyma holi gweinidogion y llywodraeth wedyn. Roedd ymateb **Graham Stuart** (Sicrwydd Ynni a Sero Net) yn debyg i Boris: ‘Mae rhaid i ni wneud hyn – mentro!’ Pan ofynnwyd i Ysgrifennydd Cymru, **David TC Davies**, pam y dylai pobl fuddsoddi yng Nghymru ymysg yr holl ansicrwydd, awgrymodd y gallai’r sgiliau a’r hyfforddiant gael eu defnyddio yn Sizewell C hefyd.

Cynrychiolwyd cyrff anllywodraethol gan **Neil Crumpton** (PAWB) a **Doug Parr** (Greenpeace). Rhoesant dystiolaeth fanwl wedi’i dogfennu parthed pam nad oedd angen ynni niwclear newydd yng Nghymru, o ystyried potensial ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni, perchnogaeth gymunedol a datblygiad y grid clyfar. Tystiais innau yn erbyn model ariannu’r Sylfaen Asedau Rheoleiddiedig, a thynnu sylw at y ffordd annemocrataidd y cyhoeddwyd Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Sizewell C – cynsail i Gymru?

Ni chymerodd Crabb ddim o’r dystiolaeth hon i ystyriaeth, na’r ffaith bod y dystiolaeth o blaid niwclear yn amwys. Wrth sôn am y gyllideb ar 15 Mawrth, honnodd Crabb fod y Canghellor wedi rhoi pleidlais o hyder i ynni niwclear, “ar gefn tystiolaeth i’n pwyllgor ni”. Croesawodd y penderfyniad i gynnwys ynni niwclear yn nosbarthiad gwyrdd y DU, “gan fod hyn yn adlewyrchu’r farn a fynegwyd i’n pwyllgor”.

NID pob barn. Pan ofynnais i Stephen Crabb pryd y câi’r adroddiad ei gyhoeddi, atebodd na wnaed penderfyniad ar hynny eto. Bydd yr adroddiad llawn yn datgelu bod a wnelo’r Pwyllgor Materion Cymreig hwn (ar wahân i ambell eithriad clodwiw fel **Beth Winter, AS Cwm Cynon**), lai â materion Cymru, a mwy â materion diwydiant niwclear sydd mewn trafferthion.

**LINDA ROGERS**

• Wrth i ni fynd i’r wasg, cyhoeddwyd y bydd adroddiad Pwyllgor Dethol Materion Cymreig yn cael ei gyhoeddi ar 3 Mai.




*William M Connolley*

***Trawsfynydd : dyfodol amheus***

# PORTHLADD RHYDD MÔN: CEFFYL PREN TROEA?

Dai Owen




Mae ymgyrchwyr gwrth-niwclear yn rhybuddio'n groch bod Porthladd Rhydd newydd Ynys Môn yn cynnig tragwyddol heol i ddatblygiadau niwclear newydd diangen ar yr ynys. Mae chwe chefnogwr y cais, Assystem, Bechtel, Last Energy, MoltexFlex, Rolls-Royce SMR a Newcleo yn fusnesau niwclear blaenllaw sy'n cystadlu i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd ar safle Wylfa ar yr ynys a mannau eraill yn y DU.

Maent oll yn cystadlu am arian cyhoeddus, gan gyhoeddi datganiadau i'r wasg yn gwneud honiadau anghredadwy am eu hadweithyddion modiwlaidd bach [SMR] sydd heb eu profi, eu hawdurdodu na'u hadeiladu. Yn cefnogi'r cais hefyd mae Sefydliad Dyfodol Niwclear Prifysgol Bangor; M-Sparc, â'i gysylltiadau ag adran niwclear y Brifysgol; a'r selogion niwclear hynny, Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd.

Gall Cymru gyfan gael ei phweru gan dechnolegau gwynt, dŵr, haul, llanw a thonnau. Bydd ymgyrchwyr yn brwydro i sicrhau bod y cynllun hwn, yn hytrach, yn troi'n ganolfan ragoriaeth ynni adnewyddadwy ar yr Ynys Ynni, fel y geilw ei hun.

**RICHARD OUTRAM**
**YR AWDURDODAU LLEOL DI-NIWCLEAR (NFLA)**

# HERIO MILITARIAETH YNG NGHYMRU

Grŵp ymgyrchu newydd yw ***Heddwch ar Waith*** (Peace Action Wales) o sefydliadau heddwch a chyfiawnder sydd newydd dderbyn cyllid gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree.

Dros yr 16 mis nesaf, bydd pedwar gweithgor yn cael eu ffurfio

• i fapio i ba raddau mae'r militareiddio yn digwydd a dod â'r wybodaeth hon i sylw pobl Cymru gan ddefnyddio gweithgarwch arloesol a chydweithredol;

• i ledaenu gwybodaeth am ymddygiad di-drais, gan ymgysylltu â 'Heddychwyr Ifanc' a'u cefnogi;

• adeiladu rhwydwaith o lobïwyr a fydd yn cyfathrebu'n rheolaidd â'n cynrychiolwyr gwleidyddol;

• i weithio tuag at wneud Cymru'n Genedl dros Heddwch, gyda mabwysiadu Llysgenhadon Heddwch o fewn awdurdodau lleol.

**AWEL IRENE**

Gweithredu>Heddwch

A fyddai gennych chi neu eich grŵp lleol ddiddordeb mewn bod yn rhan o un o'r pedwar gweithgor? Cysyllter â **Jill Evans** *jillrhondda@yahoo.co.uk* neu **Rhun Dafydd** *rhundafydd@gmail.com* neu neges ar **01766 772788**.

# YMA, ACW AC YM MHOBMAN

***Breudeth – safle i Lu Gofod yr UD?***
Mae Barics Cawdor ym **Mreudeth**, Sir Benfro, yn cael ei ystyried fel safle ar gyfer gwyliadwriaeth radar ar y gofod dwfn. Mae'n rhan o gynlluniau Llu Gofod yr UD i greu rhwydwaith byd-eang o safleoedd o'r fath, er mwyn cael mantais strategol i'r UD a'i chynghreiriaid. Câi'r safle ei weithredu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.


Marian Delyth

***Arswyd y ddaear***
Rhoddodd 20 mlwyddiant goresgyniad Irac lawer i ni feddwl amdano, gan gofio'r gwrthdystiadau anferth yn Llundain ac yng Nghymru, sefydlu grwpiau heddwch a chyfiawnder newydd ledled Cymru, gwaith CND Cymru, Cynefin y Werin a Stop the War. Credai **Tony Blair** fod hanes ar ei ochr. Mae'r sylw presennol yn y cyfryngau yn awgrymu mai ni oedd yn iawn o'r cychwyn cyntaf. Ond mae digwyddiadau cyfredol yn awgrymu mai ychydig o wersi a ddysgwyd o'r llanast. Mae 31 o garcharorion yn parhau yn Guantánamo hyd heddiw. Mae'r Dwyrain Canol yn dal yn wenfflam.

***Fukushima'n dympio yn y cefnfor***
Roedd 12 mlwyddiant trychineb Fukushima ar 11 Mawrth yn bryd cynnal protestiadau byd-eang eleni, oherwydd penderfyniad Japan i ollwng miliwn tunnell o ddŵr (wedi'i drin ond â tritiwm ymbelydrol yn dal ynddo) i'r Cefnfor Tawel. Gwylltiodd hyn gymunedau pysgota Japan ac ennyn pryderon yn Ne Korea, China ac ynysoedd y Môr Tawel. Yn **Aberystwyth** gwagiodd aelodau CND Cymru yn eu siwtiau hazmat fwcedi symbolaidd o ddŵr 'ymbelydrol' i Fôr Iwerddon.

Mewn protest arall ar **Menai Suspension Bridge** yn **Ynys Môn**, bu protestwyr yn arllwys dŵr i Afon Menai, tra bod **Linda Rogers** yn darllen llythyr o gefnogaeth gan **Ayumi Fukakusa** o Gyfeillion y Ddaear Japan. Fel porth yr ynys, cafodd y bont ei defnyddio ar gyfer nifer fawr o brotestiadau niwclear a gwrth-ryfel dros y 30 mlynedd diwethaf. Dylid nodi bod cefnogaeth gan yrwyr sy'n canu corn wrth fynd heibio yn gyffredin iawn bellach. **Virginia Crosbie AS**, dalier sylw.



PAWB

# YMA, ACW AC YM MHOBMAN



Philip Steele/ CND Cymru

*Cefnogwyr CND Cymru yn lledaenu'r neges yng*

***Gwynedd yn erbyn ynni niwclear***

Yn dilyn taith gerdded lwyddiannus y llynedd o Drawsfynydd i'r Wylfa (a sawl man rhyngddynt) yn erbyn SMRs, cynhaliwyd protestiadau eto fis Mawrth eleni gan gefnogwyr CND Cymru, Cadno a PAWB yn **Nhrawsfynydd** a **Chaernarfon**, lle gosodwyd stondin ger cerflun Lloyd George ar y Maes, lle buwyd yn lledaenu'r neges a dosbarthu taflenni.

***Menywod yn erbyn y Bom***

Ar 26 Mawrth dangoswyd Women Against the Bomb, rhaglen ddogfen gyfareddol yn archwilio profiadau menywod Greenham. Roedd yn rhan o ŵyl ffilm WOW (Cymru Un Byd), ac fe'i dangoswyd yng Nghanolfan y Celfyddydau, **Aberystwyth**. Cafwyd sesiwn holi-ac-ateb wedi hyn gydag arloeswraig Greenham, **Ann Pettitt** a **Bethan Siân**, Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru. Ddeuddydd wedyn dangoswyd y ffilm yn **Abertawe** yng Nghanolfan Celfyddydau Taliesin, gyda sesiwn holi-ac-ateb dan arweiniad **Clare Hudson** a **Rebecca Johnson**.

***Yr Eisteddfod yn dod i Lŷn***

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol **Llŷn ac Eifionydd** 2023 ym **Moduan**, ger Pwllheli, o ddydd Sadwrn y 5ed i'r 12fed o Awst. Mae Dydd Hiroshima ar y 6ed a Dydd Nagasaki ar y 9fed. Gobeithiwn eich gweld yn y Babell Heddwch ac os gallwch roi help llaw, da chi, cysylltwch â **Bethan Siân** (gweler Cysylltiadau t16).

***4 Teledyne gerbron Llys y Goron***


Bydd achos llys protestwyr Palestine Action yn cael ei glywed gerbron Llys y Goron Caernarfon o'r 9fed o Fai. Fis Rhagfyr diwethaf fe dorrodd **Susan Bagshaw** (Comins Coch), **Morwenna Gray** (Machynlleth), **Ruth Hogg** (Aberystwyth) a **Tristan Dixon** (Huddersfield) i mewn i ffatri Teledyne Labtech yn Llanandras, sy'n cyflenwi systemau rhyfela a radar electronig i Israel. Maen nhw'n cael eu cyhuddo o achosi £500,000 o ddifrod.

## DYDDIADAU DYDDIADUR HAF 2023

- Dydd Sadwrn 22 Ebrill: CND Cymru'n cefnogi'r Un Mawr—Uno i Oroesi dros Natur, Bio-amrywiaeth a'r Blaned; ymweliad undydd â'r brotest 4-diwrnod hon, **Wrecsam** i Lundain a nôl; 5.30am—hanner nos, bws £35 (£20 i rai dan 18 oed/digyflog)) ***XRWrecsam@protonmail.com***

- Dydd Gwener 19 Mai 9am–5pm, Y Deml Heddwch, **Caerdydd** CF10 3AP. Academi Heddwch Cymru ar y cyd â Chanolfan Taiji Norwy: Safbwyntiau a Dysg Newydd ar Natur Heddwch. ***www.eventbrite.co.uk/e/new-perspectives-and-learning-on-the-nature-of-peace-tickets-576237801777?aff=ebdsreoeymlcollection***

- Dydd Sadwrn 20 Mai: Atal arfau niwclear yr UD rhag cael eu lleoli unwaith eto yn 'RAF' Lakenheath, Suffolk. Da chi, trefnwch fws mini neu rannu lifft a chael baneri Cymru yno i gefnogi! Am fwy o wybodaeth ewch i ***cnduk.org/lakenheath/***




**README.txt**
**Chelsea Manning, Bodley Head**
2022, 272tt
cl. caled £15.99,
cl. meddal £10.99

Er ei fod wedi'i sgrifennu mewn arddull glir, hygyrch, dydy hunangofiant Chelsea Manning ddim yn un hawdd ei ddarllen.


Cymraes oedd mam Manning, a briododd forwr Americanaidd o RAF Breudeth, a magwyd Chelsea yn UDA. Â'r llfyr â ni o'i blynyddoedd cynnar anodd, at ymrestru, gwasanaethu yn Irac, ac yna Wikileaks a'r carchar, hanes ysgytwol a thrist. Disgrifia Chelsea ei hun fel 'gweithredydd dros dryloywder'. Wrth ddadansoddi cudd-wybodaeth, gwêl lawer o'r rhyfel yn Irac, a chael ei thrawmateiddio ganddo. Mae'r bwlch amlwg rhwng y gwir a'r fersiwn glanwaith a roddir i'r cyhoedd yn ei gorfodi i weithredu. Gwyddom gymaint â hynny eisoes, ond mae'r llyfr yn esbonio'i phenderfyniadau ac yn archwilio'r gost feddyliol ac emosiynol iddi. Ysywaeth, mae sawl adran o'r llyfr wedi eu cêl-olygu [redacted] – yn dal ynghudd!

Roedd rhai termau technegol yn her i mi. Fe wyddwn i IRL (In Real Life) oherwydd MSTM (My Son Told Me), ond nid pob un. Fodd bynnag, wnaeth hyn ddim amharu ar y naratif na chelu ei negeseuon allweddol. Mae deallusrwydd a gwytnwch Chelsea yn amlwg, yn ei galluogi i oroesi a brwydro am driniaeth hormonau er mwyn trawsnewid.

Ar achlysur 20 mlwyddiant goresgyniad Irac, mae ei stori yn un y dylem ei gwybod!

**DENISE MACQUIRE**

---




**The Last Colony: A Tale of Exile, Justice and Britain's Colonial Legacy**
**Philippe Sands, W&N**
2022, 224tt, English language
cl. caled £13.20,
cl. meddal £9.99

Mae'r troi allan gorfodol a fu ar Fynydd Epynt yn dal i atseinio ar draws y blynyddoedd yn Nghymru. Ar raddfa fyd-eang, lawer mwy, cafodd alltudiaeth greulon brodorion ynysoedd Chagos yng Nghefnfor India gan Brydain ei gondemnio ers degawdau.

Ym 1966 penderfynodd Prydain brydlesu ynys Diego Garcia i UDA fel canolfan filwrol. Trowyd poblogaeth yr holl archipelago allan trwy rym i Mauritius ac ynysoedd Seychelle. Datgelodd brwydr gyfreithiol yr ynyswyr i ddychwelyd adref fod safle Prydain a'r UD yn rhagrithiol, yn hiliol, yn gwbl anfoesol ac yn anghynaladwy yn gyfreithiol—cadarnhawyd yr olaf o'r rhain gan Uchel Lys y DU yn 2000 a chan y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol yn 2019.

Mae'r cyfreithiwr rhyngwladol blaenllaw Philipe Sands yn olrhain yr hanes gwarthus hwn trwy brofiad gwraig Chagosaidd o'r enw Liseby Elysé, ac yn ei




# Celia Lang

*1946—2023*

Mor drist oedd clywed ym mis Chwefror fod Celia annwyl wedi marw. Am fenyw ddiofn! I Celia, a oedd yn fydwraig gyda'r GIG, roedd ymgyrchu – dros gyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, diarfogi a heddwch – yn rhan o'r hyn ydoedd hi, yn gweithio'n gyson gyda grwpiau lleol Amnest, Heddwch a Diarfogi a Phalesteina yng Nghymru.

Ni welai unrhyw ffiniau artiffisial rhwng ein gwahanol fudiadau, gan ganolbwyntio yn hytrach ar y problemau eu hunain a'n cwmpawd moesol cyffredin. Gwraig hyfryd, dyner, hwyliog, un wych i weithio a bod gyda hi, ag amynedd dibendraw. (Roedd achlysur ei "Amnestea" blynyddol hi a Graham yn rhyfeddod!) Roedd yn ddawnswraig Lindy Hop wych – gwyddai sut i fwynhau bywyd!

Meddai ei ffrind a'i chyd-ymgyrchydd Dave Rendle: "Bydd colled fawr ar ôl ein hanwyl ffrind a'n rhyfelwr dros hawliau dynol. Cyffyrddodd Celia â ni bob un ohonom â'i charedigrwydd, ei chyfeillgarwch gwerthfawr a'i hymrwymiad angerddol, dwfn i hawliau dynol. Boed ein meddyliau a'n cydymdeimlad gyda'i phartner annwyl Graham a'i holl deulu."


**JILL GOUGH**

## ADOLYGIADAU

gosod yn gadarn yng nghyd-destun dad-drefedigaethu ar ôl yr Ail Ryfel Byd, hawliau dynol ac ymreolaeth.

Hyd yn oed os trosglwyddir yr ynysoedd i Mauritius, bydd Diego Garcia yn parhau i fod yn blatfform i arfau niwclear. Chwaraeodd ran fawr yn rhyfeloedd Afghanistan ac Irac ac ar gyfer ehediadau 'dychwelyd' y CIA. Bydd yn sicr yn chwarae rhan yng nghytundeb AUKUS. Mae'r llyfr hwn yn allweddol o ran deall geo-wleidyddiaeth cyfredol a pharhad agweddau trefedigaethol.

**PHILIP STEELE**




**20 Riot Cops To Nick 2 Chickens**
**Pete Barker, Dixi Books**
2022, 232tt
cl. meddal £13.99

Mae Pete, gweithredydd Greenpeace sy'n byw yn y Canolbarth, yn adrodd hanes 24 gweithred uniongyrchol ddi-drais yn y 15 mlynedd diwethaf o'r tu fewn: o gynllunio, hyfforddi a disgwyl yn nerfus, i fyrfyfyrio, iwfforia a blinder! Llwyddodd rhai i newid polisi'r llywodraeth; roedd rhai yn llwyddiannus ond heb newid polisïau, ac mae'r brwydrau hynny'n parhau. Mae'r llyfr hwn yn gyflwyniad da i unrhyw un sy'n ystyried ymuno mewn gweithred uniongyrchol di-drais—rhywbeth y gall fod y bydd yn rhaid i ni i gyd ei wneud!

**BRIAN JONES**

## CND CYMRU

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd dros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd, ac i waredu Prydain a'r byd o arfau dinistr torfol.**

**gwefan** *www.cndcymru.org*
**e-bost** *heddwch@cndcymru.org*
**trydar** *@cndcymru*
**instagram** *@cndcymru*
**gweplyfr** *www.facebook.com/cndcymru/*

## YMUNWCH Â NI NAWR!

*www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/aelodaeth/*
O dan 25? Gellwch ymuno am ddim!

## CYSYLLTIADAU

**Cadeirydd:** Jill Evans [Y Rhondda]
*cadeirydd@cndcymru.org* **07803 902 401**
**Ysgrifenydd Cenedlaethol:** Bethan Siân [Llanfrothen]
*bsj11@outlook.com* **07933 791 207**
**Trysorydd ac Aelodaeth:** Michael Freeman
*trysorydd@cndcymru.org* *aelodaeth@cndcymru.org*
9 Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE
**Gwasg:** Dylan Lewis-Rowlands [Aberystwyth]
*Dylan_lewis-rowlands@live.co.uk*
**Lobïo:** Elizabeth Nakielny [Sir Gaerfyrddin]
*elizabeth.nakielny@graduateinstitute.ch*
**Cyfryngau Cymdeithasol:** Jill Gough [Llandysul]
*jillegough@gmail.com*
John Cox [Abersychan]
*drjohncox121@gmail.com* **01495 773495**
Brian Jones [Pontardawe]
*brian.jones@phonecoop.coop* **01792 830330**
Duncan Rees [Wrecsam]
*Duncan.rees01@gmail.com* **07534 975461**
Awel Irene [Llanfrothen]
*awel.heddwch@gmail.com* **07867 790971**
**Delegates to CND UK Council**
Linda Rogers [Ynys Môn]
*lindaclarerogers@btinternet.com*
Bethan Siân [Llanfrothen], Dylan Lewis-Rowlands [Aberystwyth]

## HEDDWCH

**HEDDWCH yw cylchgrawn Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear (CND Cymru).**

**Golygydd:** Philip Steele
*golygydd@cndcymru.org*
**Cyfieithydd:** Siân Edwards
*siandefynnog@hotmail.co.uk*
**Dylunio:** Moya O'Rourke
*hello@moyaorourke.com*

Argraffwyd gan Minuteman, Wrecsam.

Nid yw cynnwys **HEDDWCH** o angenrhaid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Da chi, anfonwch unrhyw sylw, cyfraniad neu ddyddiadau digwyddiadau at y golygydd.

Bydd rhifyn nesaf **HEDDWCH** yn ymddangos ym mis Awst 2023.

